

# Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

## Welsh Language Advisory Panel

8 Mai 2018 am 1:30 o'r gloch  
Y Lle, Llanelli

### COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

Enw:		Grŵp / Swydd:
Cyng. Peter Hughes-Griffiths	PHG	Plaid Cymru (Cadeirydd)
Cyng. John Prosser	JP	Llafur
Cyng. Sue Allen	SA	Annibynnol
Cyng. Edward Thomas	ET	Annibynnol (Is-gadeirydd)
Cyng. Carys Jones	CJ	Plaid Cymru
Cyng. Joseff Davies	JD	Annibynnol
<b>Swyddogion</b>		
Gwyneth Ayers	GA	Rheolwr Polisi a Phartneriaeth
Myfanwy Jones	MJ	Swyddog Polisi'r Iaith Gymraeg
Bethan James	BJ	Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg
<b>Swyddogion Busnes</b>		
Sara Rees	SR	Swyddog y Gymraeg mewn Busnes Mentrau Iaith Cymru
Heledd Llwyd	HLL	Swyddog y Gymraeg mewn Busnes Mentrau Iaith Cymru

Rhif eitem	Testun a phwyntiau gweithredu:	Yn gyfrifol:
1.	<b>Croeso ac Ymddiheuriadau</b> Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Dorian Williams, Cynghorydd Tina Higgins, Cynghorydd Alun Lenny, Cynghorydd Fozia Akhtar, Wendy Walters a Llinos Evans.	
2.	<b>Cyflwyniad Y Lle</b> Rhoddodd Owain Glenister gyflwyniad byr am Y Lle. Nododd fod 12 o fandiau fel arfer yn ymarfer mewn wythnos ac un o amcanion Y Lle oedd datblygu bandiau yn Llanelli. Dywedodd fod Clwb Ieuenctid yn cyfarfod yn yr adeilad, wedi'i drefnu ar y cyd â'r Urdd gyda 44 o bobl ifanc yn dod i'r Clwb. Mae ardal lan stâr yn Y Lle ar gael	

	<p>i'w logi. Mae ystafell ar gael lawr stâr sy'n dal offer gorsaf radio a bydd pwyllgor Y Lle yn ceisio am grant 'Arloesi' Llywodraeth Cymru er mwyn gallu chwarae cerddoriaeth a gobeithio bydd busnesau'r dref yn gallu chwarae'r gerddoriaeth hefyd.</p> <p>Mae byncws ar y llawr uchaf a'r gobaith yw y bydd bandiau yn gallu dod i Lanelli i chwarae ac wedyn aros y noson.</p> <p>Bydd cwmni sy'n cynhyrchu ffilmiau yn symud mewn lawr stâr ynghyd â chwmni therapi.</p>	
<b>3.</b>	<p><b>Cofnodion y cyfarfod diwethaf 22.2.18</b></p> <p>Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.</p> <p>Nid oedd materion penodol yn codi.</p>	
<b>4.</b>	<p><b>Cyflwyniad gan swyddogion y Gymraeg mewn Busnes Mentrau Iaith Cymru – Heledd Llwyd a Sara Rees.</b></p> <p>Nododd Heledd ei bod yn gyfrifol am orllewin Sir Gâr a Sir Benfro a nododd Sara Rees ei bod yn gweithio o swyddfa Menter Bro Dinefwr ac yn gyfrifol am ardal Dinefwr ac ardal Cwm Gwendraeth Elli. Bu'r cynllun peilot yn llwyddiannus iawn. Mae 12 swyddog wedi cael eu hariannu a'u lleoli ar draws Cymru ac mae'r prif swyddog wedi cael ei leoli ym Mhorthmadog.</p> <p>Mae'r swyddogion yn cynnig cymorth a chefnogaeth i fusnesau bach ar eu defnydd o'r Gymraeg. Maent yn cynnig cyngor o bersbectif y cwsmer ac mae ganddynt berthynas agos gyda'r FSB (Federation of Small Businesses) a'r Chamber of Trade and Commerce.</p> <p>Mae'r swyddogion yn egluro i'r busnesau ei fod yn gynllun sydd am ddim, ac yn eu hannog i greu cynllun sy'n addas i'r busnes. Nododd y swyddogion fod y cynllun yn gwahaniaethu o fusnes i fusnes a'u bôn yn annog busnesau i ddechrau gyda'r pethau bach, ac i drïo pethau am bythefnos i weld shwt mae'n mynd.</p> <p>Mae'r swyddogion yn edrych ar farchnata, delwedd a brandio. Maent yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Dysgu Gymraeg Genedlaethol ac mae'r cwrs 10 awr ar-lein am ddim yn boblogaidd iawn. Mae'r swyddogion busnes yn darparu hyfforddiant syml i staff ac yn cyfeirio staff at wasanaeth prawf ddarllen Comisiynydd y Gymraeg.</p> <p>Mae'r swyddogion busnes yn annog busnesau i ddefnyddio'r papurau bro lleol ac mae'r busnesau eisiau bob ynghlwm gyda digwyddiadau Gymraeg, ac mae busnes o Lanelli eisiau cynnal derbyniad Champagne gyda Ras yr Iaith.</p> <p>Rhai o ddyletswyddau'r swyddogion busnes yw helpu gydag arwyddion, cyfryngau cymdeithasol a rhoi nwyddau, bathodynau, arwyddion 'Croeso' a lanyards.</p> <p>Maent yn hysbysebu a phwysleisio'r manteision o ddefnyddio'r Gymraeg a bod modd i fusnesau fod yn groesawgar a gwneud ymdrech at y Gymraeg, heb yr angen i wneud popeth yn Gymraeg.</p> <p>Nodwyd bod trosiant Llaeth y Llan wedi cynyddu 15% ers newid yr enw o 'Rachel's dairy'.</p>	

	<p>Mae'r cynllun wedi dechrau ers mis Ionawr ac mae trawsdoriad o fusnesau a chwmnïau eisïau gweithio gyda nhw ac maent wedi dechrau gweithio gyda'r busnesau sy'n bwriadu symud i Neuadd Sirol Caerfyrddin (Guildhall).</p> <p>Bydd Sara yn gweithio gyda Meddygfeydd Teulu Aman Gwendraeth a gyda Gŵyl y Glowyr er mwyn cynnal digwyddiad.</p> <p>Mae cyllid ar gyfer y cynllun am ddwy flynedd.</p> <p>Diolchwyd i Heledd a Sara am eu cyflwyniad.</p>	
<b>5.</b>	<p><b>Pecyn Croeso</b></p> <p>Soniodd MJ fod y Pecyn Croeso yn deillio o'r Strategaeth Hybu er mwyn darparu gwybodaeth i fewnfudwyr, sy'n cynnwys egluro'r cyfleoedd sydd i ddysgu Cymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg a'r cyfleoedd i gymdeithasu.</p> <p>Mae'r Llywodraeth wedi bod yn gweithio gydag Ynys Môn ar greu pecyn croeso sy'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol am y Gymraeg ar y dechrau a'r diwedd gyda'r opsiwn i siroedd i ychwanegu gwybodaeth yn y canol. Nododd Myfanwy fod y Fforwm Strategol Sirol eisïau newid mwy o destun na beth roedd y Llywodraeth yn bwriadu i siroedd i wneud.</p> <p>Mae'r lluniau'n fwy lleol ond mae'r delweddau'n debyg hefyd.</p> <p>Ceir ffeithiau diddorol a gwybodaeth am fanteision dwyieithrwydd ynghyd â manylion dysgu Cymraeg. Yng nghanol y llyfryn ceir map o leoliadau Ffermwyr Ifanc a chlybiau'r Urdd cyn darllen astudiaethau lleol a gwybodaeth am fusnesau. Yng nghefn y llyfryn cyfeirir at leoliadau ble gall pobl fynd i ymarfer eu Cymraeg a rhestr o siopau Cymraeg.</p> <p>Mae'r Llywodraeth wedi cytuno i dalu £500 ar gyfer argraffu'r llyfryn ac maent wedi darparu gwybodaeth ar sut y dosbarthwyd y taflenni ar Ynys Môn. Comisiynwyd cwmni i ddsbarthu trwy nifer o wahanol ffyrdd gan gynnwys cwmnioedd, arwerthwyr, Bwrdd Iechyd ac adrannau perthnasol y Cyngor.</p> <p>Cafwyd trafodaeth sut i ddsbarthu gan gynnwys Cyfreithwyr ac Arwerthwyr Tai wrth eu bod nhw'n trosglwyddo'r allwedd. Nodwyd hefyd gallai Cyngorwyr ddsbarthu'r taflenni ynghyd â Chynghorwyr Tref a Chymuned.</p> <p>Trafodwyd y lluniau a logo Cymraeg y Llywodraeth.</p> <p>Gofynnwyd i Myfanwy i anfon adroddiad ar gynnydd at y Cyngorwyr yn nes ymlaen wrth i'r cynllun ddatblygu.</p>	
<b>6.</b>	<p><b>Unrhyw fater arall</b></p> <p>Ni chodwyd unrhyw fater arall.</p>	
<b>7.</b>	<p><b>Dyddiad y cyfarfod nesaf</b></p> <p>19 Gorffennaf 2018 am 2 o'r gloch</p> <p>Cytunwyd i drafod yr adroddiad blynyddol yn y cyfarfod nesaf ac i ofyn i Carys Ifan, Rheolwraig Yr Egin i fynychu.</p>	